NEWYDDION DA MEWN BYD TREISGAR

Nodyn i'r siaradwr:
Gan wneud sylwadau ar drais ein dydd, tynnwch sylw at yr hyn a ddywed Gair Duw am darddiad trais. Pwysleisiwch y gobaith am fyd newydd o heddwch a gynigia'r Beibl. Siaradwch yn gadarnhaol am y gobaith ar gyfer y dyfodol seiliedig ar y Beibl

"TREISGAR" YN DDISGRIFIAD ADDAS O'R BYD O'N CWMPAS HEDDIW (7 mun.)

Mae llawer ohonom wedi dioddef trais (neu'n gwybod am bobl sydd wedi dioddef trais) *yn bersonol*

[Yma ac yn ddiweddarach medrwch ddefnyddio enghreifftiau lleol diweddar]

Mae trais mor gyffredin fel bod ein gweithredoedd bob dydd yn cael eu heffeithio ganddo—sut i deithio, pryd i beidio â mynd allan o'r tŷ, beth i'w osgoi

Dryllir llawer teulu gan drais teuluol—camdrin plant, camdrin cymar, llosgach

Galwyd yr Unol Daleithiau yn brifddinas llofruddiaeth y byd diwydiannol (*g*90 10/22 28)

Efallai y teimla'r hen, yr ifanc, gwrywod, benywod, fel y teimlai Job (Darllen Job 19:7)

Ar *raddfa ryngwladol,* mae llofruddiadau, brawychiaeth, a gwrthdrawiadau hiliol yn dod yn fwyfwy cyffredin

Nid yn unig troseddwyr sy'n cyflawni hyn ond hefyd eithafwyr gwleidyddol, crefyddol, ac eithafwyr eraill

Mae llawer unigolyn a grŵp fel petaen' nhw'n ffitio disgrifiad y drygionus yn Diarhebion 4:16, 17 (Darllen)

Yn aml, niweidir dinasyddion heddychlon a'r diniwed a ddigwyddai fod yno

Gwna hyn i bobl anobeithio, mewn arswyd rhag bod gwaeth trais i ddod

Er mwyn deall pa newyddion da sydd ar gael, er gwaetha'r trais hwn, mae gofyn inni ystyried ei gefndir

BETH YW CEFNDIR Y TRAIS BYD HWN? (10 mun.)

Mae'r Beibl yn cofnodi adegau digyfraith ac o drais yn y gorffennol ac yn darparu dirnadaeth ynglŷn â'r gwir achos amdanynt

Gall archwilio digwyddiadau yr adegau hynny ein goleuo ynglŷn â digwyddiadau heddiw

Ffrwydrodd trais i'r amlwg cyn y Dilyw (Darllen Genesis 6:5, 11)

Rhaid bod llawer o'r trais wedi'i achosi gan angylion llygredig a'u hepil o "gedyrn" (Gen 6:2, 4)

Petaech chi wedi byw cyn y Dilyw, sut byddech chi wedi cael eich effeithio?

'Fyddech chi wedi teimlo'r angen i ymgaledu er mwyn goroesi?

Neu, 'fyddech chi wedi ymddiried yn Nuw, eich gobaith am ddiwedd ar drais?

Calonogol sylwi fod Duw yn bendant yn anfodlon â thrais

Bwriadodd ddod ag ef i ben, a gwnaeth hynny (Gen 6:7, 8)

Man arall lle gwelwyd trais oedd Jerwsalem cyn 70 C.C.

Honnai'r Iddewon addoli Jehofah, ond tueddai'r arweinwyr i rannu'r bobl yn bleidiau, gan hyd yn oed arwain i chwyldro (Act 5:36, 37)

Anwybyddwyd Duw, wrth i gasineb crefyddol ac amcanion hunanol gael y lle blaenaf

Fe gynhwysai'r "drygioni" oedd yn "amlhau," erlid Cristionogion yn dreisgar, fel y rhagfynegwyd (Mth 24:12; Act 7:58; 8:1-3)

Arweiniodd hyn yn y pen draw at wrthryfel treisgar yn erbyn Rhufain, gan ddifa'r holl drefn Iddewig (*it*-2 47-8)

Oddi ar hynny mae hanes yn llawn cyfnodau treisgar, gan gyrraedd ei anterth heddiw

Mae'r Beibl yn dangos fod yr holl fyd yn gorwedd yng ngafael Satan, sy'n ceisio rheoli ffordd o feddwl pawb a'u gweithredoedd (1In 5:19)

Drwy'r cyfryngau mae'n hybu 'doethineb ddaearol,' sy'n fydol, yn gythreulig, yn uchelgeisiol, ac yn ddrwg (Iago 3:15, 16)

Mae'r teledu a ffilmiau yn dangos pobl yn cael eu trywanu, eu curo, eu treisio'n rhywiol, eu saethu, eu hanweddu, eu chwythu'n yfflon; daw trais yn rhywbeth arferol

Mae'r effaith wedi'i dogfennu'n llawn—cenhedlaeth gynyddol dreisgar a'i gogwydd at drosedd (*g*87 4/8 30)

AI GOLYGWEDD DUW A CHRIST AT DRAIS SYDD GENNYCH CHI? (8 mun.)

Cofnodir yn amlwg fod Jehofah yn gwrthwynebu unrhyw un sy'n caru trais (Darllen Salm 11:5)

Nid yw wedi newid, er bod pobl heddiw yn derbyn trais fel rhywbeth cyffredin

"Tywysog tangnefedd" yw Mab Duw, a thra oedd ar y ddaear ni "wnaethai gam" (Eseia 9:6, 7, *BCL;* 53:9)

Rhydd hyn reswm inni i ddisgwyl pan fydd Iesu'n gweithredu barn Duw yn erbyn y drygionus, y bydd ei weithredoedd yn gyfiawn

Mae Duw 'nawr yn caniatáu cyfle i unigolion i ymwrthod â thrais er mwyn ennill ei gymeradwyaeth

Yn debyg i'r cyfle a roddwyd i wŷr Ninife i ymwrthod â'u 'ffordd ddrygionus a'r trais oedd ar eu dwylo' (Jona 3:8)

Wedi newid fel hyn, dylai dyn gofio cyngor Diarhebion 3:31, 32 (Darllen)

Efallai y bydd y drygionus yn ennill cyfoeth, amlygrwydd, neu rym, ond nid oes ganddynt fendith cyfeillach gyda'r Creawdwr

Wrth inni weld y byd yn dod yn gynyddol dreisgar, gallem ofyn: I ba gyfeiriad mae pethau'n mynd? 'Oes 'na newyddion da heddiw?

ER BOD Y BYD YN DREISGAR, MAE NEWYDDION DA! (20 mun.)

Cynhyrfwyd Habacuc yn fawr o weld y trais a'r drygioni yn Jerwsalem (Darllen Habacuc 1:2, 3)

Yn yr un modd, gallem ni gael ein cynhyrfu ac anobeithio, a theimlo nad oes dim gobaith, dim newyddion da

Ond mae newyddion da!

Yn gyntaf, nid yw Jehofah ac Iesu yn ddall i'r trais presennol

Maen' nhw'n uchel uwchben y drygionus ac yn gwylio (Salm 11:1; Diar 15:3)

Yn fuan daw diwedd llwyr ar drais a drygioni, a gallwn fod wedi'n nodi i'n cadw—mae hynny'n sicr yn newyddion da!

Sylwodd Jehofah ar yr hyn oedd yn digwydd yn Jerwsalem ac fe weithredodd yn gyflawn, gan ddinistrio'r ddinas yn 607 C.C.C. (Esec 8:17; *kj* 154-6, 165-71)

Cyn ymyriad grymus Jehofah, cafodd y rhai oedd yn gofidio ynglŷn â'r sefyllfa eu nodi i'w harbed (Esec 9:4)

Goroesodd rhai ffyddlon megis Baruch, Ebedmelech, a'r Rechabiaid

Gall arbed pobl heddiw hefyd sy'n arswydo oherwydd trais y byd ac sydd yn dymuno gwasanaethu Jehofah mewn gwirionedd

Mae pethau y medrwn eu gwneud i sicrhau goroesi diwedd y byd treisgar—mae hynny hefyd yn newyddion da!

Wrth i'r byd treisgar oedd yn bod cyn y Dilyw gyfarfod â'i ddiwedd, fe wyddai Noa a'i deulu beth 'roedd yn rhaid ei wneud i oroesi, a 'gwnaethant felly' (Gen 6:13-22)

Wrth i drais gynyddu yn Jerwsalem cyn 70 C.C., gwyddai'r Cristionogion, oherwydd eu rhag-rybuddio, beth 'roedd yn rhaid iddynt ei wneud (Lc 19:43, 44; 21:20, 21)

Nid yn unig 'roedd yn rhaid iddynt osgoi bod yn dreisgar ond hefyd 'roedd yn rhaid iddynt ufuddhau i'r rhybudd—golygai hynny oroesi iddynt a'u cadw

Nid yw cael ein gwaredu rhag trais heddiw yn golygu ffoi i ryw fan arbennig neu dim ond bod yn berson didrais

Fel yn hanes Noa a Christionogion y ganrif gyntaf, bydd gweithredu'n gadarnhaol yn unol â'r ffydd 'rydym wedi'i hennill drwy astudio'r Beibl yn golygu y cawn ein cadw'n fyw (Heb 10:23-25, 39)

Cawn ein cadw i fyd newydd, heb ei nodi gan ddrygioni a thrais—dyna newyddion o'r math gorau! (Salm 72:7, 8, 14)

Dan deyrnasu heddychlon Crist, ni fydd trais mwyach

Ni chaniateir i'r drygionus a'r rhai sy'n caru trais fod yn rhan o'r byd newydd, yn hytrach cânt eu diddymu (Dat 21:8)

Boed i'ch agwedd at drais a'ch gweithredoedd yn gwasanaethu Duw eich galluogi i ganfod lle yno (Darllen Salm 72:18, 19)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)